# PECYN HYSBYSEBU
# O Lan i Lan
# 2024




PAPUR NEWYDD AM DDIM **GWOBRWYEDIG**
SIR BENFRO I YMWELWYR
***Ar gael ar-lein ac fel ap***

www.arfordirpenfro.cymru/olanilan

# Cynnwys


Tudalen 2 **Categorïau hysbysebu**
Tudalen 3 **Sut i hysbysebu**
Tudalen 4 **Cyfraddau a meintiau hysbysebu arddangos**
Tudalen 5 **Ffurflen archebu hysbysebu arddangos**
Tudalen 6 **Ffurflen archebu mân hysbysebion**
Tudalen 7 **Gwaith celf hysbysebu arddangos**
Tudalen 8 **Telerau ac amodau**







## Dyma ddywedodd ein darllenwyr:

***"Yn llawn dop gyda mwy o newyddion da, awgrymiadau defnyddiol ac erthyglau ffeithiol nag erioed o'r blaen...hanfodol i drigolion ac i ymwelwyr!! ARDDERCHOG!!"***
(Facebook)

***"Hwn ydi'r cyhoeddiad gorau i dwristiaid yn Sir Benfro."***
(Gill, Gwesty Beggars Reach)



## *O Lan i Lan* 2024

- Bydd **dros 1 filiwn** o bobl leol ac ymwelwyr yn gweld eich hysbyseb bob tymor.
- **Mae'n cael ei ddosbarthu ar draws Sir Benfro ac mae ar gael mewn nifer o leoliadau yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion** rhwng mis Ebrill a mis Medi.
- Rhifyn dwyieithog enfawr gyda 48 tudalen i hyrwyddo eich busnes a'r ffyrdd gorau o fwynhau'r Parc Cenedlaethol.
- Argraffu o safon uchel sy'n dangos eich cynnyrch/gwasanaeth ar ei orau a chreu argraff barhaol.



## Categorïau hysbysebu ar gyfer 2024

- ***Artistiaid ac Orielau***
- ***Teithiau Cwch ac Ymweliadau ag Ynysoedd***
- ***Crefftau*** *(is-gategorïau: gwydr, gwlân, pren, crochenwaith, amrywiol)*
- ***Gerddi***
- ***Amgueddfeydd***
- ***Sir Benfro ar Blât***
- ***Antur yn yr Awyr Agored*** *(is-gategorïau: chwaraeon dŵr, pysgota, marchogaeth)*

**Sylwch:** Nid oes raid i'ch hysbyseb arddangos fod mewn categori arbennig; mae yna leoedd unigol ymhob rhan o'r papur hefyd. Os nad ydych yn siŵr lle fyddai orau i'ch hysbyseb, bydd ein tîm yn falch o'ch helpu – ffoniwch ni ar 01646 624895. Hefyd, os ydych eisiau inni warantu lle penodol ar gyfer eich hysbyseb arddangos, cysylltwch â ni i archebu a thalu am Le Sicr (gweler ffurflen archebu hysbysebion arddangos, tudalen 5).



## Nodyn ynghylch sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Dim ond ar gyfer prosesu hysbysebion *O Lan i Lan* y bydd yr Awdurdod yn defnyddio eich gwybodaeth ac ni fydd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â neb arall.

Darllenwch ein datganiad preifatrwydd ar ein gwefan i ganfod beth yw eich hawliau a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu chi mewn perthynas â'r hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun.
https://www.arfordirpenfro.cymru/preifatrwydd

Cysylltwch â ni os nad ydych chi'n awyddus i gael rhagor o wybodaeth am *O Lan i Lan* neu os yw eich manylion wedi newid.



# O Lan i Lan

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Parc Llanion, Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6DY

**Ymholiadau O Lan i Lan:**
Ffôn: 01646 624895
E-bost:advertising@pembrokeshirecoast.org.uk

## Annwyl hysbysebwr

Mae'n bleser gennym amgáu pecyn hysbysebu 2024 ar gyfer *O Lan i Lan*, sef papur newydd am ddim Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ymwelwyr, ac sydd erbyn hyn yn ei 42ain flwyddyn.

Eleni, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth safonau'r Gymraeg, bydd holl erthyglau golygyddol y cylchgrawn yn ddwyieithog. Mae croeso i hysbysebwyr gyflwyno eu hysbysebion yn Gymraeg, yn Saesneg neu'r ddwy iaith.

I ymwelwyr â'r unig Barc Cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain, does dim gwell cyhoeddiad am ddim, ac i hysbysebwyr, does dim lle gwell i hyrwyddo eich busnes mewn papur newydd sy'n cael ei godi gan gannoedd o ddarparwyr llety a busnesau'r sir.

## Sut i hysbysebu yn O Lan i Lan 2024

Mae'r galw am le yn ein rhifyn 48 tudalen ar sail y cyntaf i'r felin, felly archebwch eich lle yn gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi.

Mae categoriau hysbysebu 2024 wedi'u rhestru ar dudalen 2 y pecyn hwn.

I archebu eich gofod hysbyseb, darllenwch y canllawiau canlynol a chysylltwch â'r tîm os oes gennych chi unrhyw gwestiynau a byddwn yn fwy na pharod i'ch helpu.

- **Mae dau fath o hysbysebion: mân hysbysebion a hysbysebion arddangos**. Mae'r hysbysebion mân yn rhai testun yn unig, ac mae'r hysbysebion arddangos yn rhai mewn bocs (opsiynau o ran maint ar dudalen 4).
- **Angen help i ddylunio eich hysbyseb arddangos?** Cysylltwch â thîm Hysbysebu *O Lan i Lan* i gael manylion am ein gwasanaeth dylunio (codir tâl).
- **Os ydych chi am i'ch hysbyseb arddangos fod mewn safle penodol yn y papur**, y tu allan i gategori a enwir, dewiswch yr opsiwn i dalu am Le Sicr i sicrhau eich lle (gweler tudalen 5).

**Pan fyddwch chi'n barod i archebu eich gofod hysbyseb**, llenwch y ffurflenni ar-lein yn www.arfordirpenfro.cymru/hysbysebu-olanilan neu anfonwch gopi o'ch ffurflen archebu dros e-bost at advertising@pembrokeshirecoast.org.uk a byddwch yn cael anfoneb.
Y taliad gorau yw drwy BACS, yna gyda cherdyn.

**Dylid archebu, talu a gwneud y gwaith celf erbyn:**
**Dydd Gwener 5 Ionawr 2024.**

I drafod eich gofynion hysbysebu, cysylltwch â:

**Hysbysebu *O Lan i Lan***
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro SA72 6DY**
**Ffôn: 01646 624895**
**E-bost: advertising@pembrokeshirecoast.org.uk**

Mae copi o'r pecyn hysbysebu hwn hefyd ar gael yn Saesneg i'w lawrlwytho yn www.pembrokeshirecoast.org.uk/coasttocoast-advertising

Yn gywir

**Tîm *O Lan i Lan***

# HYSBYSEBU YN *O LAN I LAN* 2024

PRISIAU A MEINTIAU

**Tudalen Lawn** - **£5096** 270mm x 375mm

**Hanner Tudalen** - **£2693** 270mm x 168mm

**A** **£1183**
104mm x 162mm

**B** **£809**
104mm x 108mm

**C** **£434**
104mm x 53mm

**D** **£231**
104mm x 26mm

**E** **£231**
49mm x 53mm

**F** **£434**
49mm x 108mm

**G** **£1183**
160mm x 108mm

**H** **£597**
160mm x 53mm

**SYLWER: Lle Sicr** @ 20% yn ychwanegol

*****Gellir cyfuno meintiau i wneud hysbyseb mwy o faint (e.e. B + C)

Mae pob cyfradd yn cynnwys TAW

# Archeb am Hysbyseb **Arddangos**

**Hysbysebion bocs yw hysbysebion arddangos. Maent ar gael mewn lliw llawn a gallwch ddewis y maint ar dudalen 4. Llenwch y ffurflen hon ar ôl dewis. Dylid darparu'r gwaith celf gorffenedig yn yr union faint gan gydymffurfio â'r canllawiau dylunio sydd ar dudalen 7.**

Enw'r cysylltydd: ______

Enw masnach: ______

Cyfeiriad gohebu: ______

______

______

______

Côd Post: ______

Ffôn: ______

Ebost: ______

## MAINT YR HYSBYSEB:

(Rhowch dic ✔ yn y blwch perthnasol) Gweler tudalen 4 am brisiau a meintiau (prisiau yn cynnwys TAW)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | ☐ **£1183** | **B** | ☐ **£809** | **C** | ☐ **£434** | **D** | ☐ **£231** |
| **E** | ☐ **£231** | **F** | ☐ **£434** | **G** | ☐ **£1183** | **H** | ☐ **£597** |
| **TUDALEN LAWN** | ☐ **£5096** | | | **HANNER TUDALEN** | ☐ **£2693** | | |

**Gellir cyfuno meintiau e.e. C+D (rhowch dic yn y bocsys perthnasol uchod) £** ______

**LLE SICR:** ☐

@ 20% yn ychwanegol

£.................

Yr unig ffordd i sicrhau bod eich hysbyseb yn mynd i'r lle rydych ei eisiau. (Gweler y Telerau a'r Amodau, paragraff 10 am y Lle Sicr).

**GWASANAETH DYLUNIO HYSBYSEBION:** ☐

Os ydych eisiau cymorth i greu hysbyseb arddangos syml neu i newid hysbyseb sy'n bodoli eisoes, gall Hysbysebu *O Lan i Lan* ddarparu gwasanaeth dylunio am ffi o £30. Cysylltwch â ni a rhown wybod ichi beth sydd angen ei ddarparu.

**AILADRODD HYSBYSEB:** ☐

(Ticiwch y blwch ✔ os ydych yn dymuno ailadrodd eich hysbyseb o 2023 heb ei ddiwygio)

**ACHREDIAD:**

A yw eich sefydliad wedi'i drwyddedu / dilysu gan:

- ☐ Croeso Cymru
- ☐ Rheolau Trwyddedu Gweithgareddau Antur
- ☐ Arall

*Nodiadau:*
*(1) Trowch at y Telerau a'r Amodau, paragraff 13 ynglŷn â phrisiau gwaith celf a Gwaith Celf ar gyfer Hysbysebion Arddangos ar dudalen 8.*
*(2) Trowch at y Telerau a'r Amodau, paragraffau 6 i 8 ynglŷn â dilysu ac achredu darparwyr llety, canolfannau gweithgareddau, atyniadau, gweithredwyr cychod a sefydliadau marchogaeth ar dudalen 8.*

**Hoffwn gael fy nghynnwys yn argraffiad 2024 o *O Lan i Lan*, gyda thaliad o** ______

A fyddech cystal â thalu drwy BACS neu gerdyn ar ôl derbyn yr anfoneb. Bydd derbynneb TAW yn cael ei hanfon ar gais. Gellir talu â cherdyn drwy ffonio 01646 624800.

Arwyddwyd: ______ Dyddiad: ______

**Archebwch ar-lein neu lawrlwythwch y ffurflenni yn**
**www.arfordirpenfro.cymru/hysbysebu-olanilan**
**Archebwch erbyn dydd Gwener 5 Ionawr 2024**

**Hysbysebu *O Lan i Lan*, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY**
**Ffôn: 01646 624895 / ebost: advertising@pembrokeshirecoast.org.uk**

# Archeb am **Fân Hysbyseb**

O Lan i Lan 2024

**Testun yn unig yw hysbyseb fach. Mae dau fath o hysbyseb fach, fel y gwelir isod. Mae 'hysbyseb llinellol' yn cynnwys manylion sylfaenol eich busnes. Mae 'hysbyseb llinellol a thestun' yn rhoi'r opsiwn ichi restru manylion eich busnes gyda gwybodaeth ychwanegol. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom, waeth p'un a ydych chi'n archebu hysbyseb fach newydd neu'n dymuno ailredeg hysbyseb o'r llynedd, gyda neu heb newidiadau.**

Enw'r cysylltydd:

Enw masnach:

Cyfeiriad gohebu:

Côd Post:

Ffôn:

Ebost:

## MÂN HYSBYSEBION:

☐ **Llinellol yn unig: £42**
enghraifft isod

**Enw'r cwmni**
**Cyfeiriad, cod post**
**Ffôn:**
**www**
**e-bost**
*Dau gyfrif cyfryngau cymdeithasol, e.e. Facebook a Twitter.*

☐ **Llinellau a 30 gair o destun: £80**
**Geiriau ychwanegol am £38 am bob 30 o eiriau**
enghraifft isod

**Enw'r cwmni**
**Cyfeiriad, cod post**
**Ffôn:**
**www**
**e-bost**
*Dau gyfrif cyfryngau cymdeithasol, e.e. Facebook a Twitter.*
*"Bydd geiriau ychwanegol eich testun hysbysebu yn mynd yma, gan gynnwys unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol ychwanegol"*

## CATEGORÏAU:

**Dewiswch UN categori, os gwelwch yn dda:**

- ☐ Artistiaid ac Orielau
- ☐ Teithiau Cwch ac Ymweliadau ag Ynysoedd
- ☐ Crefftau - gwydr, gwlân, pren, crochenwaith, amrywiol. *(Nodwch o dan ba un o'r is-gategoriau Crefft yr hoffech eich hysbyseb gael ei rhestru).*
- ☐ Gerddi
- ☐ Amgueddfeydd
- ☐ Sir Benfro ar Blât
- ☐ Antur yn yr Awyr Agored - chwaraeon dŵr, pysgota, marchogaeth)

*(gweler Categoriau Hysbysebu ar dudalen 2).*

## Achrediad:

A yw eich sefydliad wedi'i drwyddedu/dilysu gan:

☐ Gwasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur ☐ Croeso Cymru ☐ Arall

Nodiadau: Gweler Telerau ac Amodau paragraffau 6 i 8 ynglŷn â gwirio ac achredu darparwyr llety, canolfannau gweithgareddau, atyniadau, gweithredwyr cychod a sefydliadau marchogaeth ceffylau.

## TESTUN YR HYSBYSEB:

**Sylwch: os ydych eisiau ail-redeg eich hysbyseb o'r llynedd, nodwch: AIL-REDEG 2023.**

Enw'r Sefydliad:

Cyfeiriad / Cod post:

Rhif ffôn / gwefan / e-bost:

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol:

Testun (Parhewch ar dudalen ar wahân, os oes angen):

Nifer o eiriau (heb gynnwys cyfeiriad, manylion cyswllt a chyfryngau cymdeithasol)

**Hoffwn gael fy nghynnwys yn argraffiad 2024 o *O Lan i Lan*, gyda thaliad o**

A fyddech cystal â thalu drwy BACS neu gerdyn ar ôl derbyn yr anfoneb. Bydd derbynneb TAW yn cael ei hanfon ar gais. Gellir talu â cherdyn drwy ffonio 01646 624800.

Arwyddwyd: Dyddiad:

**Archebwch ar-lein neu lawrlwythwch y ffurflenni yn www.arfordirpenfro.cymru/hysbysebu-olanilan**
**Archebwch erbyn dydd Gwener 5 Ionawr 2024**

**Hysbysebu *O Lan i Lan*, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY**
**Ffôn: 01646 624895 / ebost: advertising@pembrokeshirecoast.org.uk**

# Gwaith Celf ar gyfer Hysbysebion Arddangos

## Rhestr Wirio Hysbysebion Arddangos

- [ ] Archebwch a thalwch am eich gofod hysbysebu drwy Hysbysebu *O Lan i Lan*.
- [ ] Trafodwch eich gwaith celf gyda dylunydd o'ch dewis chi neu Hysbysebu *O Lan i Lan* (gweler isod).
- [ ] Anfonwch waith celf yr hysbyseb i Hysbysebu *O Lan i Lan*.

*Dydd Gwener 5 Ionawr 2024 – y diwrnod olaf i archebu gofod hysbysebu.*

*Dydd Gwener 5 Ionawr 2024 – y diwrnod olaf i dderbyn gwaith celf.*

- [ ] Gwiriwch a dychwelyd y broflen i Hysbysebu *O Lan i Lan*.

## Eich cyfrifoldebau wrth gyflwyno gwaith celf

- Dylai hysbysebwyr weithio gyda Hysbysebu *O Lan i Lan* ar bob cam wrth gynhyrchu gwaith celf ar gyfer hysbysebion arddangos.

- Dylid darparu gwaith celf cyflawn i'r union faint ar gyfer ei ail gynhyrchu (gweler tudalen 4) ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cynllunio. Ble nad yw hyn yn bosib, fe fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cysodi ac yn gosod yr hysbyseb i fformat safonol am ffi ychwanegol o £30 ar ben y ffi a godir am y gofod hysbysebu.

  Gwaith celf safonol yw gosod testun a logo / delwedd a gyflenwir i greu hysbyseb ddeniadol. Os oes angen gwaith celf arbennig megis creu logo, darluniau etc, neu os oes angen ysgrifennu testun, bydd angen i ddylunydd o'ch dewis ddarparu hyn.

- Rhaid i'r **gwaith celf** gyrraedd APCAP heb fod yn hwyrach na **Dydd Gwener 5 Ionawr 2024**. Ni dderbynnir unrhyw waith celf ar ôl y dyddiad cau.

- Cyfrifoldeb yr hysbysebwr yw gwirio a chymeradwyo'r proflenni a ddarperir. Gwneir pob ymdrech i osgoi camgymeriadau, ond ni fydd yr Awdurdod yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau sy'n ymddangos.

- Cyfyngir hysbysebwyr i uchafswm o ddau gam proflen ar gyfer gwaith celf a gynhyrchir gan APCAP. Bydd cost o £30 am unrhyw newidiadau/proflenni pellach.

- Dylid darparu'r gwaith celf ar ffurf ffeiliau PDF neu JPEG - ni fydd unrhyw fformat arall yn dderbyniol. Cysylltwch â ni ag unrhyw ymholiadau.

**DYDDIAD CAU - Dydd Gwener 5 Ionawr 2024**

***Archebu gofod hysbysebu, copi ar gyfer mân hysbysebion a'r gwaith celf terfynol ar gyfer hysbysebion arddangos***

# Amodau a Theleraau hysbysebu

## 1. Archebu Lle
Mae'n rhaid derbyn yr holl archebion am ofod hysbysebu cyn **dydd Gwener 5 Ionawr 2024**, ynghyd â thaliad a chopi ar gyfer mân hysbysebion neu waith celf ar gyfer hysbysebion arddangos.

## 2. Talu
Pan fyddwn ni'n derbyn eich archeb am ofod hysbysebu, mae hyn yn creu cytundeb rhyngom ni, ac mae'n gosod cyfrifoldeb arnoch chi i dalu'r ffi hysbysebu. Fel arfer, mae'n rhaid talu wrth archebu, neu fel y cytunir gennym ymlaen llaw. Mae'r prisiau wedi eu gosod ac maen nhw'n cynnwys TAW. Mae'n rhaid i elusennau ddarparu datganiad eu bod wedi cwrdd â'r amodau 'zero' arbennig, cyn y gellir tynnu TAW (gweler hysbysiad TAW 701/58). Dylai unrhyw sieciau fod yn daladwy i APCAP.

## 3. Dyddiad Cyhoeddi
Y dyddiad cyhoeddi yw Mawrth 2024.

## 4. Hawliau'r Cyhoeddwr
Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw hysbyseb neu wrthod unrhyw gopi penodol ar unrhyw adeg, heb reswm, p'un ai y talwyd y swm sy'n ddyledus ar gyfer yr hysbyseb ai peidio. Os bydd cais yn cael ei wrthod ar ôl i'r hysbysebydd dalu amdano, rhoddir ad-daliad.

## 5. Deddf Disgrifiadau Masnachol 1968
Cyhoeddir hysbysebion ar y ddealltwriaeth eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Disgrifiadau Masnachol 1968 a chyfrifoldeb yr hysbysebydd yw sicrhau cydymffurfiaeth o'r fath.

## 6. Darparwyr llety
Gellir derbyn hysbysebion am lety/safleoedd carafanau a gwersylla (yn cynnwys asiantaethau) yn unig pan fydd y llety wedi'i wirio gan Groeso Cymru, tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru.

## 7. Canolfannau Gweithgareddau/Atyniadau/ Gweithredwyr Cychod
Gellir derbyn hysbysebion ar gyfer Canolfannau a Gweithredwyr Gweithgareddau yn unig pan fyddan nhw wedi'u trwyddedu o dan Wasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur neu gyrff llywodraethu cenedlaethol lle bo hynny'n addas.
Rhaid i bob atyniad gael eu rhestru gan Groeso Cymru.
Rhaid i weithredwyr cychod gael eu trwyddedu gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a/neu Gyngor Sir Benfro.
RHAID CYFLWYNO LLUNGOPÏAU O DDOGFENNAU CYFREDOL WRTH ARCHEBU FEL PRAWF O STATWS GWIRIO, ACHREDU NEU DRWYDDEDU.
Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gweithio ers sawl blwyddyn gyda gweithredwyr a sefydliadau partneriaeth i ddatblygu'r Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro sy'n cael ei gydlynu gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro.
Rhaid i ddarparwyr gweithgareddau awyr agored gefnogi'r Siarter Awyr Agored i hysbysebu yn *O Lan i Lan*. Dylai testun hysbyseb a'r delweddau adlewyrchu egwyddorion ac amcanion Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i destun neu ddelweddau os nad yw'ch hysbyseb yn adlewyrchu'r amcanion hyn.
**Y cyswllt ar gyfer grŵp Siarter Awyr Agored yw**
**Paul Renfro, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Llawr 2il, Tŷ Pier, Ffordd y Pier, Doc Penfro, SA72 6TR.**
**E-bost: paul.renfro@pembrokeshirecoastalforum.org.uk**

## 8. Sefydliadau marchogaeth ceffylau
Sylw i'r perchnogion: Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gallu derbyn hysbysebion dim ond ar y ddealltwriaeth bod y sefydliadau marchogaeth yn cydymffurfio â deddfau lleol yr Awdurdod. Rhaid i bob canolfan gael ei hachredu gan Groeso Cymru neu wedi'u trwyddedu o dan Wasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur neu gorff llywodraethu cenedlaethol a bod llungopi o'r achrediad/trwydded yn cael ei gyflwyno wrth archebu.

## 9. Cyfrifoldebau'r Hysbysebydd
Bydd yr hysbysebydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod a chostau (gan gynnwys treuliau mewn perthynas â thor-hawlfraint) sy'n codi wrth gyhoeddi unrhyw gopi a ddarperir gan yr hysbysebydd, ac yn digolledu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'i swyddogion yn erbyn hyn, pa fodd bynnag y cwyd hynny.

## 10. Safle Gwarantedig i'ch hysbyseb arddangos
Talu am Safle Gwarantedig (h.y. bydd eich hysbyseb yn siŵr o gael ei roi mewn safle y cytunir arno yn y papur) ydyw'r unig ffordd i sicrhau bod eich hysbyseb yn mynd lle rydych chi'n dymuno. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bob amser yn ceisio gosod hysbysebion arddangos mewn safleoedd priodol ond oni bai eich bod yn talu'n ychwanegol am Safle Gwarantedig efallai na fydd eich hysbyseb yn y man oedd yn ddewis cyntaf gennych.

## 11. Ymwadiad gadael allan/canslo
Ni all yr hysbysebydd ganslo unrhyw hysbyseb ar ôl i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gysodi'r copi. Ar gyfer achosion o ganslo, bydd ad-daliadau yn cael eu gwneud yn ôl disgresiwn yr Awdurdod. Os gadewir unrhyw hysbyseb allan, ni fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro dan unrhyw oblygiadau i'r hysbysebydd ac eithrio i ad-dalu'r tâl hysbysebu. Ni all yr Awdurdod warantu dosbarthiad os oes cyfyngiadau symud o ganlyniad i Covid-19.
Cyfrifoldeb yr hysbysebydd yw gwirio a chymeradwyo'r proflenni fel sy'n ofynnol. Gwneir pob ymdrech i osgoi gwallau, ond nid yw'r Awdurdod yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wallau (ac eithrio ad-dalu taliadau a dalwyd pan oedd yr Awdurdod yn gyfrifol am y gwall). Bydd unrhyw gais am ad-daliad o gyfran addas o'r ffi o ganlyniad i broblem argraffu yn cael ei drin ar sail ei rinweddau ond cytunir iddo ble gellir dangos bod y camgymeriad wedi achosi rhagfarn sylweddol i'r hysbysebydd yn unig.
Pan fo hysbysebydd wedi archebu lle ac wedi methu â darparu'r arlunwaith, logo, ffotograffau, darluniau neu destun priodol erbyn y dyddiad terfynol y cytunwyd arno, mae'r hysbysebydd hwnnw yn gyfrifol am dalu am holl gost y gofod hysbysebu.

## 12. Manylion Cynhyrchu
Tabloid. Arwynebedd delweddau 270mm x 385mm. 5 colofn y dudalen. Argraffu Atredol Gwe Heatset, 4 lliw trwy gydol y cyhoeddiad ar bapur newyddion 52gsm wedi'i wella. Tarddiad PDF.

## 13. Arlunwaith Hysbysebion Arddangos
Dylid darparu'r arlunwaith fel jpegs (CMYK 300ppi) neu pdfs (parod i'r wasg 300ppi) o'r un maint. Ni dderbynnir unrhyw fformat arall. Ble nad yw hyn yn bosib, fe fydd APCAP yn cysodi ac yn gosod yr hysbyseb i **fformat safonol***
gyda ffi o £30 ychwanegol ar ben y ffi a godir am y gofod hysbysebu. (*Fformat safonol – enw a manylion cyswllt ynghyd ag un neu ddwy ddelwedd a gyflenwyd gan yr hysbysebwr i'w trefnu fel hysbyseb).
Os bydd angen unrhyw waith celf **arbennig** ar yr hysbysebwyr ar wahân i'r fformat safonol rydyn ni'n ei gynnig, bydd angen i hyn gael ei gyflenwi gan ddylunydd a ddewisir gan yr hysbysebwr.
**Rhaid i arlunwaith hysbysebion arddangos gyrraedd Hysbysebu *O Lan i Lan* (Ffôn 01646 624895) erbyn dydd Gwener 5 Ionawr 2024 fan bellaf**. Awgrymir yn gryf fod unrhyw arlunwaith yn cael ei dderbyn cyn y dyddiad hwn.
***Sylwer:*** *ni dderbynnir unrhyw arlunwaith ar ôl y dyddiad cau.*

**Rhaid bod modd gwahaniaethu'n glir rhwng hysbysebion sy'n cael eu gosod a chynnwys golygyddol sy'n cael ei gyhoeddi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol, felly ni dderbynnir unrhyw ddeunydd ar gyfer hysbysebu.**

## 14. Hysbysebion ar y Wefan ac yn yr 'Ap'
Cynigir hysbyseb rad ac am ddim ar y wefan i holl hysbysebwyr *O Lan i Lan*, a bydd yn ymddangos yn awtomatig yn y rhifyn ar-lein yn union yr un fformat ag y mae yn y papur newydd. Yn yr un modd, fe fydd eich hysbyseb hefyd yn ymddangos yn awtomatig yn ein 'ap' *O Lan i Lan* rhad ac am ddim. Nid yw hysbysebion ar y wefan nac yn yr 'ap' ar gael fel archeb ar wahân.

**DYDDIADAU CAU** *Archebu gofod hysbysebu, copi ar gyfer mân hysbysebion a'r gwaith celf terfynol ar gyfer hysbysebion arddangos:* ***Dydd Gwener 5 Ionawr 2024***